Senedd Cymru / Welsh Parliament
**International Relations/Cysylltiadau Rhyngwladol**

# Adroddiad ar Ymweliad Dirprwyaeth y Senedd: Ymweliad â Gwlad yr Iâ gan ddirprwyaeth o gadeiryddion y pwyllgorau dan arweiniad y Llywydd

25-27 Mawrth 2025



Dirprwyaeth Senedd

Y Llywydd, Elin Jones AS
Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Russell George AS, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Gwion Evans – Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd

## Ymgysylltu blaenorol gan y Senedd

Arweiniodd y cyn-Lywydd, y Fonesig Rosemary Butler, ddirprwyaeth fechan o'r "Cawcws Menywod mewn Democratiaeth" i Wlad yr Iâ ym mis Medi 2014 ar gyfer rhaglen yn canolbwyntio ar gydraddoldeb rhywedd.

Cynhaliodd y Senedd ymweliad deuddydd hefyd ym mis Mawrth 2016 gan ddirprwyaeth o'r Althingi, dan arweiniad y Llefarydd ar y pryd Mr Einar K. Gudfinnsson. Roedd yr ymweliad yn canolbwyntio ar ddiddordeb Gwlad yr Iâ yng ngwaith Comisiwn y Senedd ym maes Addysg/Allgymorth a Datblygiad Proffesiynol yr Aelodau.

Trefnwyd ymweliad â'r Senedd ym mis Mai 2016 i Gyfarwyddwr Cyffredinol yr Althingi ddysgu mwy am gefnogaeth i Aelodau newydd eu hethol. Roedd hyn yn cynnwys y cyfle i ddilyn y rhaglen gynefino ar gyfer yr Aelodau a etholwyd yn ddiweddar yn ogystal â chyfarfod â Chyfarwyddwyr y Comisiwn a'r Comisiynydd Safonau.

## Cyfarfod â Llefarydd yr Althingi, Ms. Þórunn Sveinbjarnardóttir.

Y Llefarydd Þórunn Sveinbjarnardóttir

Yr Ysgrifennydd Cyffredinol, Ms. Ragna Árnadóttir

Y Cyfarwyddwr Cyffredinol, Mr. Jörundur Kristjánsson

Rhoddodd y Llefarydd drosolwg o hanes Gwlad yr Iâ a'r blaenoriaethau gwleidyddol cyfredol. Roedd hyn yn cynnwys datblygiad parhaus y diwydiant twristiaeth a'r heriau seilwaith cysylltiedig.

Trafodwyd aelodaeth Gwlad yr Iâ o'r Gymdeithas Fasnach Rydd Ewropeaidd (EFTA) a chynnwys Gwlad yr Iâ yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE). Gall yr angen i gysoni fframweithiau deddfwriaethol a rheoleiddio ddylanwadu'n fawr ar eu gweithgarwch seneddol. Trafododd y ddirprwyaeth o Gymru y ffordd y mae colli'r strwythurau Ewropeaidd (ariannol a pholisi) ar ôl gadael yr UE wedi rheoli

llawer o weithgareddau'r Senedd wrth i Gymru geisio datblygu fframweithiau cyfatebol, megis y fframwaith amaethyddol cyffredin.

Mae aelodaeth o'r UE wedi bod yn bwnc sy'n codi dro ar ôl tro yng ngwleidyddiaeth Gwlad yr Iâ, yn aml dan ddylanwad  pryderon ynghylch cwotâu pysgota'r UE a sofraniaeth economaidd. Mae llywodraeth Gwlad yr Iâ yn bwriadu cynnal refferendwm ar drafodaethau aelodaeth o'r UE erbyn 2027.

Mae'r cyd-destun rhyngwladol yn anwadal ar hyn o bryd ac mae lleoliad Gwlad yr Iâ yng Ngogledd yr Iwerydd yn golygu y gallai'r wlad ddod i chwarae rhan fwyfwy strategol bwysig mewn gwleidyddiaeth ddaearyddol. Un arwydd o hyn yw'r cynnydd yng ngweithgarwch NATO yn y wlad.



Llun: Llywydd gyda Llefarydd Þórunn Sveinbjarnardóttir

## Arferion Seneddol: Cyffredinol

**Mae'r nodiadau a ganlyn yn nodi materion trafodaethau gyda'r Llefarydd a Phwyllgorau'r Althingi ynghylch arferion Seneddol yng Ngwlad yr Iâ:

- Yn yr etholiad diwethaf, cafwyd 30 o ASau newydd (cyfanswm o 63 Aelod). Roedd hon yn duedd gyson ac fe'i gwelwyd gan y Llefarydd fel rhywbeth cadarnhaol gan ei fod yn esgor ar syniadau newydd. Roedd hefyd yn wir fod llawer o'r garfan newydd yn unigolion profiadol a ddaeth â mewnwelediadau a safbwyntiau gwerthfawr gyda nhw – roedd rhai o gefndiroedd proffesiynol ac eraill wedi dal swyddi ar lefel fwrdeistrefol – er enghraifft cyn-faer Reykjavik a chyn-gyfarwyddwr materion ynni yn Awdurdod Ynni Cenedlaethol Gwlad yr Iâ.

- Tra bod yna elfennau cadarnhaol, nodwyd hefyd y gallai mewnlifiad o Aelodau newydd effeithio ar y cydbwysedd. Dywedodd un Aelod ei fod yn teimlo y byddai mwy o barhad yn fuddiol, gan ddweud mai dim ond un o'r 9 Aelod ar ei bwyllgor ef (Yr Amgylchedd a Chyfathrebu) oedd wedi bod yn Aelod Seneddol o'r blaen.

- Trefn y seddi yn yr Althingi (llun): Cynhelir pleidlais flynyddol ar gyfer dynodi seddi ar hap i Aelodau oddi mewn i'r Siambr. Ymddengys fod hyn yn cael ei gydnabod yn gyffredinol fel peth cadarnhaol. Mae yna eithriadau, sef Gweinidogion sy'n eistedd yn wynebu Aelodau'r ddeddfwrfa.

- Mae gan Lefarydd yr Althingi chwe Dirprwy Lefarydd. Nhw sy'n ffurfio Pwyllgor y Llefarydd i benderfynu ar faterion sy'n effeithio ar yr Althingi. Mae'r Llefarydd hefyd yn cydweithio â chadeiryddion grwpiau'r pleidiau wrth drefnu agenda'r cynulliad. Mae'r Llefarydd yn cadw'r hawl i bleidleisio. Mae'r broses o ethol y Llefarydd a'r Dirprwyon yn adlewyrchu'r cyfansoddiad a'r cydbwysedd pŵer ymhlith y pleidiau gwleidyddol.

- Mae'r Senedd yn cyfarfod o ddydd Llun i ddydd Iau gyda chyfarfodydd Pwyllgor fel arfer yn y bore. Mae'r cyfarfodydd llawn yn dechrau ganol y prynhawn (fel arfer yn cwrdd o 15:00 hyd tua 20:00). Rhaid mynychu wyneb yn wyneb.

- Mae oriau gwaith yr Aelodau'n tueddu i fod rhwng tua 09:00 ac 20:00.

- Mae gan y Senedd 110 aelod o staff:

- Mae aelodau senedd Gwlad yr Iâ yn neilltuo pythefnos bob blwyddyn i weithio yn eu hetholaethau. Yn ystod y cyfnod hwn, maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol i gysylltu â'u hetholwyr a mynd i'r afael â materion lleol. Mae'r gweithgareddau hyn fel arfer yn cynnwys:
    - Cyfarfod gyda thrigolion lleol, busnesau a grwpiau cymunedol i ddeall eu pryderon a chasglu adborth.

  - Ymweld â sefydliadau lleol fel ysgolion, ysbytai a gwasanaethau cymdeithasol i asesu eu hanghenion a'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt.
  - Mynychu digwyddiadau a gweithgareddau lleol i gynnal presenoldeb gweladwy a dangos cefnogaeth i fentrau cymunedol.
  - Cynnal ymweliadau safle â phrosiectau seilwaith a datblygiadau arwyddocaol eraill yn yr ardal.
  - Cydweithio ag awdurdodau lleol i fynd i'r afael â heriau a chyfleoedd rhanbarthol penodol.
  - Pwrpas yr ymarfer yw cynnal cysylltiadau lleol a dilysu’r gweithgaredd seneddol drwy ddeall realiti anghenion y boblogaeth.

- Nid oes gan yr Aelodau staff cymorth pwrpasol er bod rhai yn gweithio i’r grwpiau gwleidyddol. Mae pob plaid wleidyddol a gynrychiolir yn yr Althingi yn penodi ei staff ei hun. Mae'r penodiadau hyn fel arfer yn cael eu gwneud gan arweinyddiaeth y blaid ac maent yn cynnwys rolau fel cynghorwyr gwleidyddol, swyddogion cyfathrebu, a chymorth gweinyddol.
- Ymddengys fod diwylliant lle mae Aelodau'n canolbwyntio bron yn gyfan gwbl ar weithgarwch Seneddol. Mae Aelodau'n tueddu i beidio â chael swyddfeydd mewn etholaethau na staff sy'n gwneud gwaith achos.
- Yn ôl trefniant yr Althingy, os yw Aelod yn absennol am fwy na 5 niwrnod, mae'r person nesaf ar y rhestr etholiadol yn cymryd ei le. Er enghraifft, roedd un Aelod yn cynrychioli'r Senedd mewn cynhadledd NATO yn ddiweddar a chafodd y person nesaf ar y rhestr ei alw i mewn ar gyfer y cyfnod hwnnw.
- O ran Aelodau sy’n cynrychioli Reykjavik yn benodol, ychydig iawn o waith ymgysylltu uniongyrchol ar faterion / achosion etholaethol unigol y byddent yn ei wneud. Efallai bod Aelodau etholedig ar lefel bwrdeistref yn gwneud mwy o'r gwaith hwn. Awgrymwyd bod y sefyllfa ychydig yn wahanol yng nghyd-destun Aelodau o bellter pellach oddi wrth Reykjavik.
- O ran ymgysylltu â'r cyhoedd, dywedodd Aelodau Gwlad yr Iâ fod cyfryngau cymdeithasol wedi bod yn drawsnewidiol wrth ymgysylltu â'r cyhoedd.
-

## Pwyllgorau

- Nid yw’r pwyllgorau'n agored i’r cyhoedd ac nid yw'r sesiynau'n cael eu darlledu (yn wahanol i'w sesiynau llawn).
- Mae pwyllgorau'n cyfarfod ddwywaith yr wythnos. Fel arfer, mae Aelodau'n eistedd ar ddau bwyllgor.
- Y Senedd sy’n ethol y pwyllgorau ac yna mae'r Pwyllgor yn ethol Cadeirydd.
- Mae staff ar gyfer pwyllgorau seneddol yn cael eu penodi yn seiliedig ar anghenion y pwyllgor a'r arbenigedd sydd ei angen. Mae'r penodiadau hyn yn aml yn cael eu gwneud mewn ymgynghoriad â chadeirydd ac aelodau'r pwyllgor.
- Er bod yna ambell enghraifft, prin yw’r ymchwiliadau polisi mae pwyllgorau'n ymgymryd â nhw. Maen nhw’n canolbwyntio ar ddeddfwriaeth. Dywedodd y Pwyllgor Lles wrthym, er enghraifft, y gallant ymgymryd â gwaith o'r fath i'r Senedd ac y gallant hefyd gynnig deddfwriaeth ond na d oedd hyn yn arfer cyffredin. Maen nhw fel arfer yn gwneud gwaith craffu ac yn trafod Biliau.
- Mae'r Althingi yn derbyn tua 80 o gyfreithiau'r flwyddyn. Mae pob pwyllgor yn gyfrifol am archwilio amryw o gynigion deddfwriaethol, gwelliannau a materion cysylltiedig cyn i’r senedd lawn eu trafod a phleidleisio arnynt.
- Gall union nifer y darnau o ddeddfwriaeth y mae pob pwyllgor yn craffu arnynt amrywio yn dibynnu ar bwyslais y pwyllgor a'r agenda deddfwriaethol ar gyfer y flwyddyn.
- Mae gallu pwyllgorau i gyfeirio eu rhaglenni eu hunain yn gyfyngedig gan ei fod yn dibynnu, i raddau helaeth, ar raglen y Llywodraeth a'r ddeddfwriaeth y maent yn ei chynnig.
- Roedd y Pwyllgor Lles yn gweithio ar 20 Bil eleni. O fewn cylch Seneddol o 4 blynedd, gallai un pwyllgor fod yn ystyried 100 o Filiau.
- Codwyd pwysigrwydd staff seneddol gan y Llywydd a pha mor hanfodol oedd cefnogaeth o'r fath i'r Aelodau.
- Ymddengys fod Gwlad yr Iâ yn defnyddio proses ddeddfu sylfaenol ar gyfer rheoliadau a bod Pwyllgorau (ac felly pob Aelod) yn cymryd rhan mewn trafodaethau polisi penodol iawn yn hytrach na chraffu ar Filiau fframwaith a Biliau sy'n rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion, fel sy'n fwy

cyffredin yn Senedd Cymru. Awgrymodd rhai o'r dirprwyon fod hwn yn ddull democrataidd o weithredu sy'n galluogi gwaith craffu manwl ar ffurfwedd y polisi sy’n effeithio yn uniongyrchol ar ddinasyddion.

- Trafododd Aelodau'r Pwyllgor oblygiadau'r system rhestr a sut y gall ymddygiad ac arfer yr Aelodau newid mewn perthynas ag ymateb i etholwyr.
- Cyfeiriodd un Aelod at yr amserlen anhyblyg yn y Senedd a oedd yn cyfyngu ar yr hyblygrwydd o ran ffyrdd o weithio (gan gynnwys gweithio o gartref). Yn y bôn, roedd yn ofynnol iddynt fod ar yr ystad ond roeddent hefyd yn barod i gydnabod y fraint o fod yn Aelod.

## Y Pwyllgor Lles: Senedd Gwlad yr Iâ




**Llun:** Dirprwyaeth Senedd gyda Aelodau Pwyllgor Lles Gwlad yr Iâ.

- Etholwyd y Cadeirydd ar fore'r cyfarfod hwnnw yn dilyn dyrchafiad y Cadeirydd blaenorol i fod yn Weinidog Plant. Y Cadeirydd newydd oedd Kolbrún Áslaugar Baldursdóttir ac roedd Kristján Þórður Snæbjarnarson yn bresennol fel Dirprwy Gadeirydd.
- Mae cylch gwaith y Pwyllgor Lles yn cynnwys yswiriant iechyd a phensiwn, gwasanaethau cymdeithasol, tai, materion y farchnad lafur a gwasanaethau iechyd.
- 20 Bil i'w hystyried cyn gwyliau'r haf.

- Byddai rhai o'r Biliau yn ymwneud â sicrhau cysondeb â'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r UE.
- Maent yn ystyried absenoldeb statudol ar gyfer profedigaeth ar hyn o bryd. Dyma enghraifft o lefel y manylder o fewn y ddeddfwriaeth a gaiff ei hystyried gan y Pwyllgor. Roedd y gwaith hwn yn ymwneud ag ystyried absenoldeb rhiant a chefnogaeth i rieni â mwy nag un plentyn. Awgrymodd y ddirprwyaeth o Gymru y byddai materion o'r fath yn ddarostyngedig i reoliadau Gweinidogol yng Nghymru ac felly na fyddai'r un lefel o ddylanwad a chraffu. Awgrymwyd y byddai croeso ychwanegol i waith o'r fath wrth ymgysylltu â'r cyhoedd ar rai o'r materion manylach sy'n cael effaith uniongyrchol arnynt.
- Gofynnodd Russell George beth allai fod yn gyfrifol am y lefelau uchel o weithgarwch corfforol ond hefyd lefelau cynyddol o ordewdra yng Ngwlad yr Iâ. Awgrymodd un Aelod fod teithio llesol yn wendid penodol yn y maes polisi cyhoeddus. Roedd hyn yn sgil trafnidiaeth gyhoeddus wael a gorddibyniaeth ar ddefnyddio ceir.
- Er mwyn mynd i'r afael â'r cyfraddau cynyddol o orbwysau a gordewdra, mae llywodraeth Gwlad yr Iâ wedi rhoi mesurau ar waith i annog arferion bwyta iachach. Mae'r rhain yn cynnwys:
    - gosod safonau maeth ar gyfer prydau ysgol;
    - gwahardd hysbysebion bwyd a diod ar y teledu a'r radio yn ystod oriau brig rhaglenni plant;
    - mabwysiadu'r arfer Nordig o ddefnyddio symbol maeth sydd ar ffurf twll y clo (a ddefnyddir hefyd yn Nenmarc, Norwy a Sweden) i dynnu sylw at ddewisiadau iachach o fewn categorïau cynnyrch, ac yn 2020, cyhoeddodd Gwlad yr Iâ ei chanllawiau clinigol cyntaf ar gyfer rheoli gordewdra mewn oedolion.

  Fodd bynnag, er gwaethaf yr ymdrechion a'r mentrau hyn, ychydig o gynnydd a welwyd hyd yn hyn.

- Mae'r ddarpariaeth iechyd gyffredinol yng Ngwlad yr Iâ yn cael ei hariannu gan fwyaf trwy system iechyd a ariennir yn gyhoeddus, a hynny yn bennaf trwy refeniw'r llywodraeth. Mae'n rhaid i gleifion dalu am rai costau gofal iechyd, fel ymweliadau gofal sylfaenol ac ymweliadau fferyllol ar gyfer cleifion allanol, ond mae cap ariannol

misol ar gyfraniadau cleifion ac mae eithriadau i'r drefn, gan gynnwys yr holl ofal a thriniaeth mewn ysbyty.

  - Mae system gofal iechyd Gwlad yr Iâ yn gweithredu o dan fodel prynwr-darparwr integredig, sy'n golygu mai'r llywodraeth sy'n talu am, ac sy'n berchen ar, y rhan fwyaf o sefydliadau gofal iechyd. Mae polisi, gweinyddiaeth a chyllido wedi'u canoli yn genedlaethol, ond mae Gwlad yr Iâ wedi'i rhannu'n 7 ardal ar gyfer darparu gwasanaethau gofal iechyd. Mae gan bob rhanbarth o leiaf un prif ysbyty ac mae pob ysbyty yn eiddo cyhoeddus.
  - Holodd Cadeirydd Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd hefyd ynghylch effaith cael poblogaeth gymharol fach ar fynediad at ofal iechyd arbenigol. Roedd hyn yn dibynnu ar y math o arbenigedd ond yn aml byddai'r gofal iechyd yn cael ei gaffael o wledydd eraill, yn aml iawn yn Nenmarc a Sweden (lle bydd pobl o Wlad yr Iâ yn cael mynediad at rai triniaethau canser). Mae cytundebau penodol rhwng gwledydd Nordig sy'n caniatáu mynediad haws i wasanaethau gofal iechyd ar draws ffiniau. Mae'r cytundebau hyn yn helpu i symleiddio'r broses i gleifion sydd angen gofal arbenigol.
  - Mae gan y gwledydd Nordig, gan gynnwys Gwlad yr Iâ, Denmarc, a Sweden, draddodiad hir o gydweithredu mewn gofal iechyd. Mae hyn yn cynnwys rhannu mentrau ymchwil a chydweithrediadau clinigol, sy'n hwyluso mynediad at driniaethau arbenigol.
  - Yswiriant Iechyd: Mae system yswiriant iechyd cyhoeddus Gwlad yr Iâ yn talu am driniaethau dramor pan fo angen.

- Fel arfer, byddai'r Pwyllgor Lles yn cwblhau ei waith ar Fil mewn 4 i 5 wythnos. Mae eu gallu i lunio eu rhaglen waith eu hunain yn gyfyngedig oherwydd y ffocws ar ddeddfwriaeth a gynigir gan y Weithrediaeth, fodd bynnag, mae enghreifftiau o ymchwiliadau polisi sy'n gaeth i derfyn amser. Er enghraifft, roedd ymchwiliad byr ynghylch hediadau iechyd brys o fewn Gwlad yr Iâ sy'n gysylltiedig â phroblemau logistaidd. Fe'i hystyriwyd yn ddarn pwysig o waith a hwylusodd drafodaeth gyhoeddus ac a wnaeth i randdeiliaid deimlo bod eu lleisiau wedi cael eu clywed.

- Holodd Russell George AS ynghylch mynediad at ofal iechyd brys – mae cleifion yn aml yn cael eu cludo mewn ambiwlans neu eu hedfan at wasanaethau meddygol brys.

## Pwyllgor yr Amgylchedd a Chyfathrebu: Senedd Gwlad yr Iâ



Llun: Dirprwyaeth Senedd gyda Aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd a Chyfathrebu Senedd Gwlad yr Iâ

Aelodau Newydd – roedd un yn gyn-gyfarwyddwr Materion Ynni yn Awdurdod Ynni Cenedlaethol Gwlad yr Iâ ac un arall yn gyn-faer Reykjavik.

- Gofynnodd Llyr Gruffydd AS (Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith) a oedd ganddyn nhw dargedau statudol yn ymwneud â newid hinsawdd.

- Mae Llywodraeth Gwlad yr Iâ wedi gosod targed i gyrraedd allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net erbyn 2040. Mae'n disgrifio ei broffil allyriadau fel a ganlyn:

> *Iceland's emissions profile is in many ways unusual. Almost all heating and electricity generation is provided for by renewables – hydro and geothermal energy. Iceland has great potential for carbon uptake from the atmosphere by afforestation and revegetation, and to curb emissions from soils by reclaiming drained wetlands. The biggest sources of*

*emissions (outside land use) are industrial processes, road transport, agriculture, fisheries and waste management.*

- Gwneir llawer o ddefnydd o ynni geothermol, er enghraifft gwresogi Reykjavík, defnyddio stêm ar gyfer ynni diwydiannol, ffermio llysiau mewn tai gwydr. Mae ei allyriadau nwyon tŷ gwydr fesul pen yn uwch na'r rhan fwyaf o wledydd Ewrop.
- Cyhoeddodd Llywodraeth Gwlad yr Iâ strategaeth ymaddasu i'r hinsawdd am y tro cyntaf yn 2021. Dywedodd un Aelod ei bod yn pryderu a fyddai'r cynllun yn galluogi cwrdd â'r targedau.
- O ystyried eu bod yn dibynnu ar ynni geothermol ar gyfer cartrefi, y prif faterion iddyn nhw yw cerbydau trydan, llongau a hediadau.
- Roedd y cysondeb a'r cydlyniad â'r darlun ehangach o ran ynni adnewyddadwy a'r cysylltiad â'r nodau hinsawdd yn ystyriaeth barhaus. Holodd yr Aelodau a yw Gwlad yr Iâ yn gwneud gwaith arloesi i bweru canolfannau cynhyrchu alwminiwm neu storio data, ac yn atal cynnydd amgylcheddol trwy liniaru'r difrod a wneir gan eraill a allai fod yn dymuno elwa o wrthbwyso eu gweithgarwch negyddol?
- Efallai eu bod nhw'n cynyddu cynhyrchiant, a hynny drwy ddulliau mwy gwyrdd, ond beth yw'r nod a'r amcan terfynol?
- Mae'n amlwg bod Gwlad yr Iâ yn ymddangos yn atyniadol i gwmnïau rhyngwladol ond a yw eu cymhellion yn foesegol ac yn flaengar yn amgylcheddol?
- Dywedodd Aelodau'r Pwyllgor ei fod yn agenda enfawr sy'n gofyn am amser ac arbenigedd a mynegwyd rhywfaint o bryder ynghylch anallu'r Pwyllgor i fynd i'r afael â maint y dasg o ystyried nifer y Biliau y mae'n rhaid iddo eu hystyried. O fis Mawrth i fis Mehefin, mae ganddyn nhw 21 Bil i'w hystyried.
- Dywedodd un Aelod yr hoffai weld map strategol, gan graffu ar y manylion a chyrraedd safbwynt cyfannol.
- Mae angen dull fforensig o ymdrin â pholisi, gyda mewnbwn arbenigol. Mae hynny'n her i'r Llywodraeth a'r pwyllgor, ac mae mynd i'r afael â hyn

mewn modd eglur a chynhwysfawr o fewn cylch etholiadol 4 blynedd yn her.

- Mae gwydnwch a diogelwch bwyd yn fater pwysig i Wlad yr Iâ a Chymru. Dywedodd Llyr Gruffydd AS fod Cymru yn mewnforio gormod. Mae Gwlad yr Iâ yn defnyddio ffermio tŷ gwydr i dyfu llysiau a ffrwythau. Mae tai gwydr yn cael eu cynhesu gan ddefnyddio ynni geothermol. Mae ffocws Gwlad yr Iâ ar gynaliadwyedd ac arloesedd mewn cynhyrchu bwyd, ynghyd â'i defnydd helaeth o ynni adnewyddadwy wedi bod yn gadarnhaol, er bod angen buddsoddiad ac arloesedd parhaus.

- Gofynnwyd a oedd ynni gwynt yn flaenoriaeth yng Ngwlad yr Iâ. Nodwyd bod ynni gwynt, er ei fod yn llai amlwg, hefyd yn rhan o gyfuniad ynni adnewyddadwy Gwlad yr Iâ, gan gefnogi'r seilwaith ynni cyffredinol. Maent yn edrych ar brofiad Norwy yn y cyd-destun hwn.

- Mae pryder ynglŷn â symud yn rhy gyflym a hynny heb fframwaith clir o'r dechrau ar gyfer sicrhau dull priodol. Mae angen bod yn sensitif wrth gynllunio mentrau o'r fath a rhoi anghenion y gymuned leol wrth eu gwraidd.

- Fel gydag ynni dŵr, mae rhai yn pryderu bod y pendil yn symud yn rhy gyflym tuag at dyrbinau gwynt.

- Ar nodyn cadarnhaol, dywedodd yr Aelod fod y buddsoddiadau mawr a wnaed 10 mlynedd yn ôl mewn ffynonellau ynni adnewyddadwy yn dwyn ffrwyth, ond bod y buddsoddiad yn hanfodol.

- 
- Llun: Dirprwyaeth Senedd ar ymweliad safle â Hellisheiði Geothermol a cyfleusterau dal Carbfix $CO_2$.

....

## Ymweliad i gyfarch Arlywydd Gwlad yr Iâ, Ei Hardderchowgrwydd Ms. Halla Tómasdóttir, yn y Breswylfa Swyddogol, Bessastaðir.



Dangoswyd y gwaith celf i'r ddirprwyaeth yn y breswylfa swyddogol. Mae'r Arlywydd yn frwd dros hyrwyddo gwaith artistiaid benywaidd ifanc o Wlad yr Iâ. Trafododd y Llywydd a'r Arlywydd bwysigrwydd codi proffil testun cydraddoldeb rhywedd a deall cyfraniad hanesyddol menywod at fywyd cymdeithasol a gwleidyddol. Fe wnaeth yr Arlywydd fyfyrio ar y menywod sydd mewn rolau arweinyddiaeth yng Ngwlad yr Iâ ar hyn o bryd. Yn ogystal â'i rôl hithau, roedd y rolau yn cynnwys y Prif Weinidog, y Llefarydd, Comisiynydd yr Heddlu Cenedlaethol, maeres Reykjavik a'r Esgob.

Cafwyd trafodaeth eang am y cyd-destun rhyngwladol presennol a safle Gwlad yr Iâ yn y byd yn ogystal â datblygiad cymharol ddiweddar Senedd Cymru.

Esboniodd yr Arlywydd ei rôl fel noddwr y Fforwm Economi Llesiant. Trafododd y ddirprwyaeth sut roedd llesiant wedi bod yn amlwg mewn trafodaethau polisi a

deddfwriaethol yng Nghymru. Cyfeiriwyd at basio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n rhoi saith nod llesiant ar waith a chynigiodd y ddirprwyaeth i hwyluso cyswllt rhwng swyddfa'r Arlywydd a chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru er mwyn ystyried cynrychiolaeth bosibl yn y Fforwm Economi Llesiant.

## Casgliad

Cafodd y ddirprwyaeth fudd o gael dirnadaeth am weithrediadau Senedd Gwlad yr Iâ ar faterion polisi a deddfwriaethol y mae eu seneddwyr yn mynd i'r afael â nhw.

Roedd y daith yn ardderchog a rhoddodd y Llefarydd, Aelodau'r Pwyllgor a swyddogion y Senedd o'u hamser yn hael. Roedd pob cyfarfod yn afaelgar ac roedd y cyfnewid gwybodaeth a phrofiad rhwng ein seneddau yn hynod ddiddorol.

Gobeithir yn fawr y gellir cynnal y cysylltiadau seneddol a wnaed yn ystod yr ymweliad hwn ac y bydd cyfleoedd i gynrychiolwyr o'r Althingi ymweld â'r Senedd maes o law.